

RHAGLEN HYFFORDDIANT Y GANOLFAN 2015–2018

1. Cyflwyniad i'r prosesau a'r rheoliadau ffurfiol, disgwyliadau a gofynion y cynllun a phwysigrwydd y CDP (PAO, SG; Diwrnod y Glas)
2. Cyflwyniad i'r amgylchedd ymchwil yn y Ganolfan a'i llyfrgell, prosiectau'r Ganolfan ac adnoddau Llyfrgell Genedlaethol Cymru (PAO, SG, penaethiaid prosiectau; Diwrnod y Glas)
3. Nodi cwestiynau ymchwil, canfod a dewis ffynonellau, a strwythuro'r ymchwil. Datblygu CDP (Staff hŷn, PAO; Tachwedd 2015)
4. Ysgrifennu a golygu eich traethawd a chyhoeddiadau academiaidd (Swyddog Golygyddol, PAO; 2016)
5. Ysgrifennu adolygiadau, creu testun ar gyfer blogiau, gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol, rhoi cyflwyniadau llafar llwyddiannus, gan ddefnyddio ppt ac adnoddau eraill. Creu ergyd (Staff hŷn, PAO, myfyrwyr; 2016)
6. Paratoi a dysgu modiwlau a chyrсияu ar gyfer israddedigion (opsiynol) (Staff hŷn)
7. Nodi cyfleoedd am nawdd ac ysgrifennu ceisiadau am swyddi a grantiau (Staff hŷn, PAO, myfyrwyr; 2017)

- Yn ychwanegol, bydd y myfyrwyr yn cyfarfod â'r PAO o leiaf ddwywaith bob blwyddyn academiaidd er mwyn trafod y CDP, unrhyw broblemau, a materion sydd o bwys iddynt. Disgwylir i'r myfyrwyr gyfrannu i gyfres seminarau amser cinio'r Ganolfan.
- Bydd hyfforddiant generig mewn Dulliau Ymchwil yn cael ei ddarparu drwy gytundeb â'r Drindod Dewi Sant, a bydd disgwyl i fyfyrwyr fel rheol fynychu cyfres o sesiynau hyfforddi craidd yn Llanbedr Pont Steffan. Yn ogystal, gall cyrsiau eraill a ddarperir gan y Drindod Dewi Sant fod yn berthnasol i fyfyrwyr penodol, a bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau yn cynnig arweiniad ar yr hyn sydd ar gael. Bydd myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn elwa o gyrsiau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, fel arfer drwy gyswllt fideo.
- Bydd hyfforddiant penodol i'r pwnc, a gaiff ei deilwra i anghenion prosiectau ymchwil unigol, yn cael ei ddarparu gan staff y Ganolfan. Bydd y manylion yn cael eu cydlynu gan y Pennaeth Astudiaethau Ôl-raddedig, ar sail awgrymiadau yn deillio o drafodaethau rhwng myfyrwyr a thimau goruchwylio.
- Mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig os yw myfyriwr eisoes wedi cwblhau hyfforddiant sylweddol mewn dulliau ymchwil ar lefel MA, mae'n bosibl y caiff ganiatâd i'w eithrio o rai elfennau o'r hyfforddiant Dulliau Ymchwil. Er mwyn asesu hyn, a phennu gofynion eraill, bydd archwiliad sgiliau a dadansoddiad o anghenion yn cael eu cynnal gyda chymorth y Cyfarwyddwr Astudiaethau yn fuan ar ôl cofrestru.